Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gaban Kingsland

**Ysgol Gynradd Kingsland**
**Ffordd Cyttir**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 2TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chaban Kingsland

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Caban Kingsland Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol (GDS) |
| Person(au) cofrestredig | Dd/b |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jane Millican |
| Person â gofal | Jane Millican, Gemma Owen |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig, rhwng 9am ac 1pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Na |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog, Cymraeg a Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 10 Ionawr 2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad Cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 07/02/2023 |
| Daw bron pob un o'r plant o gartrefi Saesneg. | |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd ar gyfer cael mynediad dirwystr i'r ardal dysgu yn yr awyr agored

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith ynglŷn â chaniatáu amser i blant chwarae a dysgu, a sut y gellir defnyddio hunanwerthuso i ddatblygu darpariaeth a chefnogi dysgu, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn hyderus, yn y lleoliad hwn sy'n gwbl gynhwysol. Maent yn dewis pypedau o sachau stori, yn galw allan neu'n dewis carreg odli er mwyn canu eu hoff rigymau a chaneuon yn ystod amser cylch. Mae bron pob un o'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn frwdfrydig, gan ddewis teganau y maent yn awyddus i chwarae â nhw, am faint bynnag o amser y maent yn dymuno. Maent yn gwneud dewisiadau fel grŵp i chwarae neu wrando ar stori, sy'n cael eu parchu gan ymarferwyr. Mae llawer o blant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae ychydig o blant yn defnyddio cyfathrebu di-eiriau i rannu syniadau a mynegi eu teimladau fel iaith y corff, arwyddo, a thrwy ddefnyddio adnoddau wedi'u creu yn arbennig. Er enghraifft, maent yn rheoli set trên actifadu â llais lle maent yn ymdrechu'n llwyddiannus i ddweud, “dos!” ac, “aros!”.

Mae bron pob un o'r plant yn ymdawelu'n gyflym. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhedeg i mewn i'r lleoliad, yn eistedd yn frwdfrydig ar y mat yn barod ar gyfer amser cylch, ac yn ymuno wrth ganu caneuon cyfarwydd. Mae bron pob un o'r plant yn ffurfio perthnasoedd agos ag ymarferwyr ac yn ymateb yn gadarnhaol iddyn nhw. Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n adeiladol â'i gilydd a gyda disgyblion Blwyddyn 6 sy'n ymweld â'r lleoliad bob wythnos o'r ysgol leol, i wneud ffrindiau. Mae hyn yn helpu'r plant â'r cyfnod pontio i'r ysgol. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maent yn penderfynu pa adnoddau yr hoffent, ac yn dod ag eitemau naturiol, fel cangen wedi disgyn, i greu eu ‘coeden berthyn’ yn arddangos eu ffotograffau.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Maent yn ymddwyn yn berffaith, mae ganddynt foesau da ac yn cydweithredu'n dda pan fydd hi'n amser tacluso. Maent yn cymryd eu tro ac yn rhannu pan fyddant yn chwarae, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn garedig â'i gilydd. Er enghraifft, maent yn nôl sticeri gwobrau pan maent yn credu bod angen i ymarferwyr ganmol neu gysuro eu ffrindiau.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus ac yn llawn cymhelliant, yn dangos diddordeb mawr yn eu chwarae a'u dysgu, ac felly'n ffynnu. Maent yn gwrando'n frwdfrydig ar ei gilydd ac ar ymarferwyr wrth rannu syniadau, ac yn ddysgwyr chwilfrydig. Maent yn gofyn cwestiynau, yn chwilio am atebion mewn llyfrau â darluniau, ac yn rhoi cynnig ar bethau drostynt eu hunain. Maent yn chwarae'n ddychmygus, er enghraifft wrth lenwi potel â gwlân cotwm i fwydo babi-dol, yn trwsio car â phecynnau offer, neu'n eistedd yn y môr gyda'r siarcod a chrwbanod y môr yn rhannu llyfrau perthnasol. Mae bron pob un o'r plant yn dyfalbarhau ac yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau o'u dewis nhw, fel chwarae â theganau electronig rhaglenadwy. Maent yn gwrando'n astud ar storïau ac yn cymryd rhan yn frwd yn ystod amser cylch. Mae bron pob un o'r plant yn cael ymdeimlad o gyflawni o'r hyn y maent yn ei wneud, ac yn eithriadol o hapus wrth iddynt chwarae.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau yn arbennig o dda. Maent yn ffynnu mewn amgylchedd lle maent yn hyderus i roi cynnig ar wneud rhywbeth

newydd. Maent yn tywallt diodydd yn annibynnol yn ystod amser byrbryd ac yn taenu caws meddal ar eu bara pita. Maent yn bodloni eu hanghenion sylfaenol eu hunain, yn hongian cotiau, yn gwisgo ar gyfer chwarae yn yr awyr agored, yn defnyddio'r toiledau, ac yn golchi eu dwylo gydag ychydig iawn o gymorth. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth, eu hyder a'u hunan-barch trwy arferion ac anogaeth gan ymarferwyr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar y plant yn dysgu. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant tair neu bedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall yn rhy fach i adrodd arni heb adnabod plant.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn gymwys ac yn hyrwyddo diogelwch personol, ffyrdd iach o fyw, ymarfer corff, a lles, yn effeithiol. Maent wedi cael hyfforddiant priodol ac ennill cymwysterau priodol, ac yn darparu gofal ymatebol i blant yn gyson mewn amgylchedd anogol a gofalgar. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach trwy rannu polisïau â rhieni ac yn adolygu bwydlenni gyda'r tîm bwyd a maeth ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Maent yn sicrhau bod plant yn brwsio eu dannedd yn rheolaidd ar ddechrau pob sesiwn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion am ddamweiniau, digwyddiadau, driliau tân a thymereddau oergelloedd, sy'n drylwyr ac yn cael eu gwerthuso i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau. Mae ymarferwyr yn deall eu rolau arbenigol mewn diogelu plant ac yn cynorthwyo'r rhai â chyflyrau meddygol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut mae plant yn tyfu ac yn datblygu, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Maent yn cynnal amgylchedd glân i leihau croes-heintiau. Mae'r cymarebau ymarferwr i blentyn yn gyson uwchlaw'r rhai sy'n ofynnol, ac fe gaiff plant eu goruchwylio'n briodol wrth chwarae a bwyta. Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig ac wedi cael hyfforddiant diogelu.

Mae ymarferwyr yn trin plant ag urddas a pharch ac yn rheoli rhyngweithio yn sensitif yn unol ag anghenion unigol plant. Maent yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad, ac yn gyson o ran eu hymagwedd. Maent yn hyrwyddo ymagweddau ymddygiad cadarnhaol, maent yn garedig, yn canmol yn rheolaidd ac yn esbonio'n dda i blant pam mae'n rhaid iddynt rannu. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau bron pob un o'r plant yn rhagorol. Mae ymarferwyr a phlant hŷn sy'n ymweld â'r lleoliad yn fodelau rôl cadarnhaol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol plant yn eithriadol o dda, ac mae ganddynt ymagwedd gadarnhaol at y Cwricwlwm newydd i Gymru. Maent yn gynhwysol ac yn gwybod sut i adnabod a defnyddio adegau addysgu i ymestyn dysgu'r plant. Mae ymarferwyr yn rhannu cyfrifoldebau a rolau gweithwyr allweddol i gynllunio'n ymatebol ar gyfer camau nesaf y plant, gan gofnodi arsylwadau a'u hadegau Waw! mewn teithiau dysgu a llyfrau trysor. Fodd bynnag, nid yw rhieni bob amser yn ymwybodol o gysylltiad gweithwyr allweddol â'u plentyn. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd sy'n hyrwyddo chwilfrydedd ac yn eu galluogi i ddilyn eu hoff ffordd o chwarae, fel llwytho pasta ar fwrdd tro trên a'i wylio'n troelli, neu ddawnsio i gerddoriaeth i hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol. Mae ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o'r Cod Anghenion

Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r gweithdrefnau. Maent yn darparu cymorth ychwanegol pan fydd angen, ac yn cynnig cyfleoedd i sicrhau bod plant yn integreiddio'n llawn yn ystod sesiynau. Maent yn gweithio'n agos ac yn ddiwyd gyda rhieni, gofalwyr, yr holl asiantaethau perthnasol a gwasanaethau arbenigol i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer plant. Maent yn defnyddio adnoddau fel llyfrau, doliau, ac eitemau yn eu siop drugareddau yn llwyddiannus i hyrwyddo ac annog plant i ffurfio perthnasoedd â phobl eraill ac yn dangos parch a goddefgarwch ar gyfer pobl o bob cefndir diwylliannol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu ystod hynod effeithiol o gyfleoedd dysgu ysgogol ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod plant yn elwa ar bob profiad dysgu ac yn eu hannog i ddatblygu ystod eang o fedrau ar draws holl feysydd y ddarpariaeth.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau sy'n annog y plant i ymgysylltu ag agweddau ar rifedd a llythrennedd. Maent yn darparu llyfrau diddorol yn holl feysydd y ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r plant yn gwneud defnydd da o lyfr am becynnau cymorth pan fyddant yn chwarae yn yr ardal adeiladu. Ceir ystod eang o adnoddau rhifedd ar draws holl feysydd y lleoliad, fel til a chlorian yn y siop, y mae'r plant yn eu defnyddio'n ddychmygus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau echddygol manwl wrth iddynt chwarae ag ystod eang o wahanol adnoddau bach sy'n ysgogol a lliwgar fel ei gilydd.

Mae ymarferwyr yn gwneud i blant deimlo'n gysurus pan fyddant yn cyrraedd, ac mae'r ystod gyffrous o gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn sicrhau bod y plant yn ymddiddori ar unwaith yn y gemau, y teganau a'r adnoddau sydd wedi cael eu gosod allan ar eu cyfer. Maent yn manteisio ar unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth sy'n apelio atynt, ac ar ôl gweithgaredd amser cylch cychwynnol, sy'n galluogi pawb i ymdawelu, maent yn chwarae ag adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau i blant ddatblygu eu medrau yn yr awyr agored. Maent yn cynorthwyo plant i blannu hadau, gweld sut maen nhw'n tyfu ac yn creu eu byd deinosoriaid eu hunain. Maent yn annog plant i ddatblygu medrau corfforol trwy reidio gwahanol feiciau ac yn datblygu medrau balansio a chydsymud ar y si-so. Mae ymarferwyr yn mynd â'r plant i ardal naturiol gyfagos lle maent yn dysgu am eu hamgylchedd naturiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu mynediad dirwystr i'r awyr agored ar gyfer y plant ar hyn o bryd.

Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ymadroddion Cymraeg cyfarwydd wrth gyfathrebu â phlant, ac o ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o'r iaith yn datblygu'n dda. Mae'r lleoliad yn dathlu diwylliant Cymru trwy weithgareddau fel dysgu am Santes Dwynwen ac yn esbonio i blant am ei chysylltiadau ag Ynys Môn. Mae ymarferwyr a phlant yn cymryd rhan yng ngorymdaith flynyddol Gŵyl Dewi trwy dref Caergybi. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o ddoliau ac adnoddau o wahanol ddiwylliannau sy'n dathlu gwyliau fel Diwali ac Eid, ac mae ymarferwyr yn annog plant i werthfawrogi amrywiaeth.

Mae'r lleoliad wedi croesawu'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae ymarferwyr wedi datblygu ymagwedd hynod effeithiol at gynllunio ymatebol. Maent wedi llwyddo i

sicrhau cydbwysedd rhagorol rhwng gadael i'r plant wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â ble hoffen nhw chwarae, a gyda phwy, ochr yn ochr â'u cynlluniau a'u gwybodaeth eu hunain am ba fedrau y mae angen i wahanol blant eu datblygu. Mae hyn yn hynod bwysig ac effeithiol ar gyfer plant a allai fod yn profi heriau o ran eu dysgu. Mae'r cydbwysedd hwn rhwng chwarae rhydd mynediad agored, wedi'i gyfuno ag amrywiaeth ardderchog o adnoddau, a medrau'r ymarferwyr o ran gwybod pryd i ymyrryd a phryd i beidio ag ymyrryd, yn hynod effeithiol. Mae eu hymagwedd gyfan wedi'i seilio ar ddatblygu pob plentyn fel unigolyn. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu hyder, eu gwydnwch a'u hunan-barch yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn gofyn cwestiynau treiddgar, gan eu haddasu yn unol ag anghenion gwahanol blant, er enghraifft wrth gyfrif y blociau ar gefn y tryc ar y safle adeiladu. Maent yn arsylwi cynnydd y plant ac yn dangos dyfnder gwirioneddol o wybodaeth am eu datblygiad, a sut orau y gallant gynorthwyo pawb. Maent yn annog plant i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r lleoliad wedi cyflwyno gweithdrefn asesu effeithiol, y maent yn ei defnyddio i amlygu cynnydd ac ystyried y camau nesaf posibl yn nysgu plentyn. Caiff pob ymarferwr ei annog i gyfrannu, gan eu bod yn deall bod cyfraniad pawb yr un mor werthfawr. Gallai hyn gyfeirio at wahanol fedrau, hyder, a rhyngweithio â phlant eraill, a gydag oedolion. Mae ymarferwyr yn adolygu a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Gofynnir i ymwelwyr gofrestru, dangos prawf o bwy ydyn nhw a dilyn gweithdrefnau parhaus i amddiffyn y rhai yn y lleoliad rhag perygl o groes-haint oherwydd COVID-19. Mae arweinwyr yn defnyddio rotâu glanhau a rhestrau gwirio iechyd a diogelwch dyddiol i wneud yn siŵr fod ymarferwyr yn cyflawni eu cyfrifoldeb i sicrhau bod yr holl ardaloedd yn gwbl lân, yn ddiogel ac wedi'u hawyru'n dda. Mae gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u lleoli ar draws y caban, ac yn yr awyr agored, i ymarferwyr, rhieni ac ymwelwyr eu defnyddio i sicrhau lefelau da o lanweithdra. Mae plant yn golchi eu dwylo yn rheolaidd ac yn effeithiol trwy gydol y sesiwn. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle, gweithgareddau, tripiau a diogelwch rhag tân, ac fe gaiff pob un o'r rhain eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gwerthusiadau o ddriliau tân wedi eu dogfennu'n dda ac yn cynnwys gwerthusiadau gonest o sut yr ymdrinnir â sefyllfaoedd. Er enghraifft, maent yn datgan bod plant yn ddigalon am eu bod yn gadael pethau ar ôl, a sut mae ymarferwyr yn defnyddio storïau ac yn cysylltu'r driliau ag amgylcheddau cartref plant. Mae ymarferwyr yn datblygu'r ardal chwarae ddiogel yn yr awyr agored, a chyfleoedd i blant fentro yn eu dysgu yn ddiogel. Ar hyn o bryd, mae plant yn cael mynediad i gae'r ysgol ac ardaloedd natur a llwybrau cyfagos yn ddiogel.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeiladau a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn cael eu cynnal yn dda iawn, eu bod yn addas, yn groesawgar ac yn gyfeillgar, a'u bod yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Ceir gofod a chyfleusterau digonol i ddiwallu anghenion plant, gan eu galluogi i archwilio a chwarae'n rhydd. Mae arweinwyr yn darparu digon o ofod llawr i blant gael gardd dan do, a char mawr i eistedd ynddo dan do, sy'n rhoi cyfle iddynt ei droi wyneb i waered a'i atgyweirio. Mae cynllun y caban teilwredig yn hyrwyddo annibyniaeth plant gan eu bod yn cael mynediad i'r holl ardaloedd dysgu a'r toiledau yn annibynnol. Mae

arweinwyr wedi sicrhau bod plant yn gallu chwarae'n ddiogel pan fyddant yn yr awyr agored trwy ddarparu ardal chwarae ddiogel. Mae ramp ar gael i bawb gael mynediad i'r caban a'r ardal chwarae yn yr awyr agored. Ceir cyfleusterau addas i ymarferwyr gael sgyrsiau cyfrinachol mewn swyddfa, a chegin lle gellir paratoi byrbrydau'n ddiogel.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ansawdd adnoddau ac offer yn dda ac maent yn prynu eitemau newydd yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu. Mae plant yn elwa'n aruthrol ar adnoddau fel llyfrau i hyrwyddo chwilfrydedd yn gysylltiedig â gwahaniaethau amlddiwylliannol, teimladau plant, pypedau a detholiad eang o ddoliau bywyd go iawn. Caiff llyfrau ffotograffau eu creu yn broffesiynol, a'u rhannu â phlant i'w hannog i ddweud wrth bobl eraill am eu profiadau blaenorol. Defnyddir digonedd o adnoddau priodol yn ddychmygus. Er enghraifft, defnyddir chwaraeydd recordiau gan blentyn sy'n ymgymryd â rôl troellwr disgiau i greu 'disgo', a chreu darluniau cylchol pan fydd hynny o ddiddordeb i'r plant. Caiff ardaloedd dysgu eu datblygu gyda'r plant. Er enghraifft, mae llong fawr môr-ladron gyda'i môr ei hun yn llawn creaduriaid yn eu hysgogi'n effeithiol. Darperir dodrefn, offer, teganau a deunyddiau o faint addas ar gyfer plant, sy'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Mae adnoddau'n lân, yn cael eu cynnal yn dda, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Mae digonedd o adnoddau naturiol a chynaliadwy a rhannau rhydd mawr a bach o ddiddordeb i blant. Maent ar gael iddynt eu defnyddio yn y 'siop drugareddau' neu'n cael eu harddangos ar y byrddau natur ac archwilio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:

Mae'r unigolyn cyfrifol, sydd hefyd yn un o'r bobl â gofal, wedi sefydlu gweledigaeth ragorol ar gyfer y lleoliad sy'n seiliedig ar ddarparu amgylchedd dysgu cefnogol a difyr ar gyfer pob un o'r plant. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan unigolyn ychwanegol sydd â gofal, a'r pwyllgor rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod datblygiadau yn y lleoliad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r syniadau diweddaraf ynghylch datblygiad y plentyn a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hi wedi sefydlu amgylchedd hynod gynhwysol yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu'r caredigrwydd, yr anogaeth a'r gofal y mae gan bob plentyn hawl i'w cael, yn eu barn nhw. Maent yn addasu eu cynllunio i ddiwallu anghenion yr holl blant, ac o ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da ac yn magu hyder a hunan-barch.

Mae gan arweinwyr, sy'n cynnwys y pwyllgor rheoli, broses sefydledig a hynod effeithiol ar gyfer gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth. Maent yn amlygu ystod o gryfderau, gan nodi'r rhesymau y tu ôl i'r elfennau cryf hyn. Maent hefyd yn nodi'r meysydd hynny sydd angen eu datblygu ymhellach, yn eu barn nhw. Caiff y rhain eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu manwl, sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r camau i fynd i'r afael â'r materion. Mae arweinwyr yn ymgorffori graddfeydd amser a cherrig milltir i fesur cynnydd. Er enghraifft, maent yn ystyried cynnydd plant mewn llythrennedd cynnar a'u hymateb i storïau yn llwyddiannus. O ganlyniad i hyn, bu disgyblion o'r ysgol gyfagos yn recordio eu hunain yn darllen storïau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chafodd y plant yn y lleoliad gyfleoedd i wrando ar y storïau. Erbyn hyn, mae'r disgyblion hŷn o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i ymgysylltu â'r plant a'u cynorthwyo wrth iddynt chwarae. Mae hyn yn

werthfawr iawn o ran helpu plant i ffurfio ymlyniadau i baratoi ar gyfer yr adeg pan fyddant yn mynd i'r ysgol.

Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi diwylliant myfyriol yr adolygu a'r hunanwerthuso cyson ac yn mwynhau'r ffordd y mae'r bobl sydd â gofal yn eu cynnwys yn y broses fyfyrio. Maent yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i roi cynnig ar wahanol strategaethau a'u hadolygu mewn ffordd broffesiynol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y newidiadau i'r cwricwlwm.

Caiff ymarferwyr gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir iddynt gan yr unigolyn cyfrifol ac aelodau eraill o'r tîm. Cânt eu hannog i ddilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol, gan ddatblygu eu medrau fel ymarferwyr addysgol a gofal plant yn y broses.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ymgysylltu ag ystod o bartneriaid ac asiantaethau cymorth arbenigol, sy'n darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen. Ceir cysylltiadau cryf â'r ysgol gynradd leol, sy'n cefnogi'r cyfnod pontio yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol ac asiantaethau lleol hefyd i ehangu profiadau'r plant. Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â thîm ymgynghorol yr awdurdod lleol ar y blynyddoedd cynnar, gan edrych yn fanwl ar sut i ddefnyddio arferion myfyriol fel rhan o'u hymagwedd at ddatblygu rôl oedolion sy'n galluogi. Mae hyn yn dangos yr ymagwedd drylwyr, wedi'i seilio ar ymchwil, sydd gan yr arweinwyr yn y lleoliad at eu gwaith.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete